**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Syr Derek Jones
Yr Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru

4 Tachwedd 2015

Annwyl Syr Derek

**Etifeddiaeth y Pwyllgor Cyllid - Craffu ariannol ar ddeddfwriaeth**

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod y Pwyllgor Cyllid ar hyn o bryd yn ystyried ei etifeddiaeth, ac fel rhan o hynny fe hoffai edrych yn fanylach ar sut y caiff costau a buddion deddfwriaeth eu cyflwyno o fewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol.

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn awyddus i weld gwelliant yn ansawdd y wybodaeth ariannol sy'n cyd-fynd â Biliau yn ystod y Cynulliad hwn. Byddwch yn ymwybodol y gwnaed rhai argymhellion yn ein hadroddiadau ynghylch dulliau a allai fod yn gamarweiniol o ran arddangos buddiannau ariannol ochr yn ochr â chostau arian parod mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol.

Byddai'r Pwyllgor yn awyddus i gael papur gennych ynghylch:

- Y broses a ddilynir ar gyfer gwneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Biliau'r Cynulliad
- Sut y caiff costau a manteision eu cyflwyno ar hyn o bryd mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol
- Y broses ar gyfer diweddaru Asesiadau Effaith Rheoleiddiol pan fydd is-ddeddfwriaeth yn cael ei drafftio a'i chostio

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

- Pa asesiadau ydych wedi'u gwneud eisoes ynghylch cywirdeb Asesiadau Effaith Rheoleiddiol y Biliau sydd wedi cael eu pasio gan y Cynulliad hwn
- Sut yr ydych yn bwriadu gwneud gwaith craffu ar ôl deddfu ar gost y ddeddfwriaeth a gafodd ei phasio gan y Pedwerydd Cynulliad
- Sut y mae cost gronnol deddfwriaeth y Pedwerydd Cynulliad yn cael ei fesur

Byddai'r Pwyllgor yn falch pe baech yn gallu mynychu cyfarfod ar 19 Tachwedd am 9.00 a.m. A fyddech cystal â chysylltu â Tanwen Summers, Dirprwy Glerc y Pwyllgor (seneddfinance@cynulliad.cymru) ar 0300 200 6386 i wneud y trefniadau angenrheidiol. Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gallu cyflwyno papur erbyn 11 Tachwedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

Yn gywir

**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd**